


Rhif: 23

Enw'r Ardal Cymeriad Morwedd:

# De dyfroedd arfordirol Bae Sain Ffraid - The Nab Head



ACM23:De Dyfroedd Arfordirol Bae Sain Ffraid – The Nab Head



Hafan San Ffraid, Stack Rocks oddi ar y lan yn y pellter



I'r gorllewin tuag at Huntsman's Leap

**Disgrifiad Cryno**

Morlin o dywodfaen a charreg laid goch sy'n wynebu'r gorllewin ar ymyl ddeheuol Bae Sain Ffraid gyda chlogwyni isel, yn gyffredinol, a thraethlin creigiog toredig a danheddog a thraethau bach yn Hafan Sain Ffraid a Thraeth Musselwick. Yn gyffredinol, mae'r anheddiad yn wasgarog ar yr arfordir agored hwn o ffermio cymysg ac mae'n anghysbell. Yr adeiladau allweddol yw eglwys Normanaidd fach y plwyf a Chastell Sain Ffraid sydd bellach yn westy.

**Nodweddion Allweddol**

- Clogwyni tywodfaen a charreg laid isel, toredig a danheddog.
- Llwyfandir mewndirol gyda chaeau unionlin o borfa a thir âr.
- Nid oes unrhyw lefydd da i angori, ond mae yna fan lansio caiac a lleoliad deifio yn Hafan Sain Ffraid.
- Mae'r llwybr arfordirol yn rhedeg ar hyd ymyl y clogwyni ond, fel arall, mae'r arfordir yn weddol anhygyrch.
- Morwedd anghysbell gydag ychydig o ffermydd a gwesty.
- Golygfeydd eang allan at y môr a thua'r gorllewin at Ynys Sgomer ac at danceri sydd wedi angori ym Mae Sain Ffraid.

**Nodweddion Ffisegol**

Mae'r pentir arfordirol hwn o greigiau Dyfnantaidd (Ffuriant Raglan a Ffuriant Sant Maughan) sy'n taro dwyrain-gorllewin wedi ei ffurfio o dywodfaen a charreg laid goch sy'n malurio. Mae creigiau tanddwr a bysedd creigiog ar ystlys y clogwyni arfordirol isel sydd ag uchder cyfartalog o 20m er, mae'n codi i 50m mewn un man. Glannau creigiog agored yw'r ardaloedd rhynglanwol gan fwyaf (93%), gydag ogofau a thraethau tywodlyd bach, a'r prif draeth yw Hafan Sain Ffraid a Musselwick i'r de. Mae erydiad y gwynt a'r tonnau ar ffurf sgrafelliad, athreuliad a symudiadau hydrologig.

Mae llawr tywodlyd bas (<20m) y môr, sydd ar oledd ysgafn, tua'r gogledd orllewin (<1°), yn gorchuddio'r gwelyau cyrs. Mae'r moroedd yn agored i bwysedd uchel gan y tonnau. Mae'r prif gerhyntau llanwol wedi eu gosod i'r gogledd a'r de ar draws Bae allanol Sain Ffraid ac mae trolif yn creu llif llanwol sy'n rhedeg tua'r gorllewin o Goulthrop Roads i Hafan Sain Ffraid am dros 9 awr. Amrediad y llanw yw -6m.

Mae'r llystyfiant ar ymyl y clogwyni yn lled-naturiol gyda glaswellt arfordirol a rhedyn ond mae'r lled yn gyfyngedig, gyda chaeau'n dod yn agos at ymyl y clogwyni. Tua'r tir mae'r dirwedd ychydig yn donnog, gan godi i 60m UDO, sydd yn borfa ac yn dir âr, gan gynnwys cynydau tatws. Mae patrwm y cae'n dueddol o fod yn ffurfiol/unionlin ger yr arfordir, gyda chloddiau ac ychydig o goed. Mae yna rai cyrsiau nant a phyllau gyda llystyfiant naturiol cysylltiedig, a llain o goetir collddail aeddfed sy'n gysylltiedig â thirwedd hanesyddol Sain Ffraid.

**Dylanwad diwylliannol**

Daethpwyd o hyd i ddeunydd Mesolithig ac, o bosib, diweddarach, ar Nab Head. Mae yna sawl safle arfordirol amddiffynedig o fewn yr ardal cymeriad hon, fel rath Trwyn y Tŵr, sy'n cynnwys banciau triphlyg gyda ffosydd hwnt ac yma, gyda chawsai canolog yn fynedfa, yn diffinio pentir ar gopa'r clogwyn.

Gellir gweld llongdrrylliad sgwner yr *Englishman* ym Mae Sain Ffraid. Trawodd y tir ger Musselwick ar 5 Mai 1933. Agorodd maes awyr Talbenni ar 1 Mai 1942 fel Gorsaf Rheoli Arfordirol Grŵp 19 ac mae'n dal i fod yn amlwg er nad yw'n cael ei ddefnyddio mwyach.

Mae'r henebion cofrestredig yn cynnwys:

- PE281 (caer bentir rath Trwyn y Tŵr): cymuned: Marloes a Sain Ffraid
- PE537 (caer bentir Castle Head): cymuned: Marloes a Sain Ffraid

Mae'r enw Bae Sain Ffraid yn awgrymu cysylltiad gyda Sain Ffraid o Kildare. Peintiodd yr artist John Piper 'Bae Sain Ffraid' o Sain Ffraid.

Mae caiacio yn boblogaidd o amgylch yr arfordir yn ogystal â physgota oddi ar y lan ac o'r

cychod, yn enwedig ger Stack Rocks a'r Hen & Chicks gerllaw. Mae yna draeth a llithrfa gyda maes parcio gerllaw yn Sain Ffraid gydag eglwys tu ôl a Chastell Sain Ffraid gerllaw. Dyma'r unig fynediad i gerbydau at yr arfordir. Gellir cael mynediad at Draeth Musselwick o Lwybr yr Arfordir gyda grisiau wedi eu torri i mewn i'r graig. Oherwydd y dŵr clir yn yr ardal, mae'n lle da i ddeifio ac mae deifwyr a chaiacwyr yn lansio o Hafan Sain Ffraid. Nid oes unrhyw le da i angori yma. Mae'r pysgota yn yr ardal yn cynnwys rhwydau wedi eu gosod, dal cimwch a chrancod mewn potiau a'r potensial ar gyfer mân-dreillio estyllod. [Yn y gorffennol rhoddwyd trwydded Rownd 24 i'r ardal ar gyfer olew a nwy a gellir gwneud ceisiadau yn y dyfodol.](#) Mae Llwybr Arfordir Sir Benfro yn rhedeg ar hyd copa ymyl y clogwyni.

#### Nodweddion esthetig, canfyddiadol a phrofiadol

Darn unedig o glogwyni isel danheddog a morlin gwyllt, sy'n cyferbynnu gyda'r dirwedd agored a digon noeth sydd wedi ei ffermio, gyda chaeau unionlin a chloddiau isel. Mae ymyl y môr yn agored iawn i wyntoedd gogleddol neu orllewinol, ac mae yna olygfeydd eang tua'r gogledd a'r gorllewin a dros y bae o ymyl y clogwyn. Mae'r arfordir a'r môr yn dawel iawn ac yn teimlo'n anghysbell a phrin iawn yw'r anheddiad a llygredd golau ar wahân i Westy amlwg Castell Sain Ffraid. Mae tanceri sydd wedi angori yn y bae hefyd yn amlwg ac yn gostwng yr ymdeimlad o wylltineb y môr. Yn Hafan Sain Ffraid mae yna ymdeimlad o dirwedd hanesyddol gydag eglwys, waliau cerrig, llain o goetir a phlasty gwledig.

#### Buddion diwylliannol a gwasanaethau

Mae'r ardal yn cyfrannu at wasanaethau hamdden ar ffurf llwybr yr arfordir a chyfleoedd ar gyfer caiacio neu ddeifio, ac at dreftadaeth naturiol ar ffurf y clogwyni dramatig, heb eu difetha, a'r arfordir creigiog. Mae'r eglwys a'r plasty gwledig yn Hafan Sain Ffraid yn creu ymdeimlad o ddyfnder amser ac mae yna gysylltedd cryf at natur a gofod amgylchedd y môr.

Rhesymau dros newid								
Crynodeb	Rhesymau allweddol dros newid							
<p>Erydiad cyffredinol isel clogwyni creigiog. Mae cynllun rheoli'r traethlin yn dweud 'gwneud dim byd'.</p> <p>Gallai dwysâd amaethyddiaeth arwain at newidiadau ym mhatrymau'r caeau a ffiniau'r caeau.</p> <p>Efallai y bydd y maes parcio yn Hafan Sain Ffraid yn galluogi dwysâd defnydd ymwelwyr.</p> <p><a href="#">Byddai trwyddedau ar gyfer olew a nwy yn y dyfodol yn newid cymeriad yr ardal pe bai'n cael ei datblygu.</a></p>	<b>Rhinweddau Arbennig</b>	Prosesau naturiol/newid hinsawdd	Gwasgedd ymwelwyr	Defnydd morol - masnachol a physgota	Ynni'r tir mawr neu fwynau	Gwasgedd datblygiad	Newidiadau rheoli tir	Defnydd MOD
	Ysblander yr Arfordir							
	Ynysoedd							
	Amrywiaeth y Tirlun							
	Pellenigrwydd, Tawelwch a Diffeithwch							
	Daeareg Amrywiol							
	Cyfoeth Cynefinoedd a Bioamrywiaeth							
	Archeoleg Gyfoethog							
	Cymeriad Anheddiad Nodedig							
	Treftadaeth Ddiwylliannol							
	Mynediad i'r Parc							
	Lle i Anadlu							
	Allwedd		Newid yn digwydd yn yr ardal sy'n effeithio ar y nodwedd arbennig ddewisedig					
Sensitifeddu allweddol								
Ffactorau sy'n cyfrannu at sensitifrwydd				Ffactorau sy'n tynnu wrth sensitifrwydd				
<p>Cymeriad naturiol a gwylltineb ymyl y môr.</p> <p>Sensitifrwydd i ragor o lygredd golau.</p> <p>Gosodiad hanesyddol yn Hafan Sain Ffraid.</p> <p>Golygfeydd agored dros y bae, ac oddi yno, at y clogwyni a chopa'r clogwyni.</p> <p>Llwybr Arfordir Sir Benfro fel derbynnydd sensitif.</p>				<p>Amaethyddiaeth mwy dwys.</p>				